



Cymunedau am Waith Astudiaeth Achos 3 - Hyfforddiant ACT

Mae'r cyfranogwyr yn cael cymwysterau a gwaith drwy gydweithrediad rhwng Cymunedau am Waith ac ACT.

Cafodd SH ei gyfeirio at Cymunedau am Waith gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gan ei fod yn chwilio am newid gyrfa a gan ei fod wedi methu â dod o hyd i waith. Ei nod oedd ennill trwydded SIA fel y gallai weithio gyda'i dad, ond roedd yn barod i dderbyn unrhyw help i'w gael i waith. Cafodd RG ei gyfeirio i CaW gan y DWP. Roedd ef yn awyddus iawn i gael gwaith gan ei fod eisiau cefnogi ei bartner a'u plentyn ifanc. Roedd ganddo ryw gymaint o brofiad yn gweithio fel stiward ac roedd eisiau adeiladu ar hyn drwy ennill ei drwydded SIA.

Fe wnaeth SH ac RG fynychu nifer o gyfarfodydd yn unigol gyda Mentor Ieuenctid Cymunedau am Waith. Gweithiodd y mentor gyda'r ddau i ddiweddarau eu CV, cyflwynodd weithdy byr ar sgiliau cyfweiliadau a thrafod mathau gwahanol o gyflogaeth gyda'r ddau. Dywedodd SH, er y byddai'n derbyn unrhyw waith, roedd ef wir eisiau trwydded SIA oherwydd y byddai ganddo wedyn sicrwydd o waith fel porthor yng ngweithle ei dad. Anfonodd y mentor ieuenctid e-bost at ACT yn gofyn a allent gynnal cwrs trwydded SIA yng Nglyn Ebwy a dywedwyd wrthi ar unwaith am gyfeirio unrhyw bobl ifanc a oedd eisiau cwblhau'r cwrs. Derbyniodd y ddau lythyr oddi wrth ACT yn cadarnhau lleoliad a dyddiad y cwrs. Daeth SH ac RG i swyddfa Cymunedau yn Gyntaf i ddweud wrth y mentor ieuenctid eu bod ill dau wedi pasio'r cwrs ac yn falch iawn ohonynt eu hunain.

Ers i'r ddau ennill eu trwyddedau SIA, mae SH wedi cael gwaith penwythnos fel swyddog diogelwch gyda'i dad ym Mrynawr ac mae wedi cael cyfweiliad am swydd swyddog diogelwch amser llawn yn Tesco Glyn Ebwy. Mae RG hefyd wedi cael gwaith penwythnos gan ddefnyddio ei hyfforddiant SIA.

Arfer Da

Mae bob amser yn bwysig gwrandao ar ddymuniadau'r cyfranogwr ynglŷn â hyfforddiant a chyflogaeth ac ymchwilio i gyfleoedd lleol. Drwy gydweithredu a chyfathrebu da gydag ACT mae'r ddau hyn wedi llwyddo i ennill y trwyddedau yr oedd arnynt eu hangen i gael gwaith yn y sector o'u dewis.